



**Addysg Gymraeg
i'ch plentyn:
Y cychwyn gorau posib**

**Welsh-medium education
for your child:
The best start possible**



Mae'r dewisiadau y byddwch yn eu gwneud am addysg eich plentyn yn rhai pwysig. Gall nifer o bethau ddylanwadu ar eich dewis, ond un o'r rhai pwysicaf yw cyfrwng iaith yr ysgol neu'r cylch chwarae.

Os yw'ch plentyn eisoes wedi bod mewn ysgol feithrin Gymraeg ei hiaith, mae'r llyfryn hwn yn ceisio eich helpu i wneud y penderfyniad gorau wrth ddewis ysgol gynradd.

Os nad yw'ch plentyn wedi dechrau mewn ysgol feithrin hyd yn hyn, mae'r llyfryn hwn yn dangos beth yw'r manteision o roi cyfle i'ch plentyn siarad dwy iaith.

Wedi ei ddarllen, os byddwch angen rhagor o wybodaeth, mae rhestr o Gysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn.

The choices you make regarding your child's education are important ones. A number of factors may influence your choice, but perhaps one of the most crucial will be the language or languages used in the school or playgroup.

If your child has been attending a Welsh-medium playgroup, this booklet seeks to help you make the best decision regarding primary education.

If your child has not yet started nursery education, this booklet outlines the advantages of giving your child the opportunity to become bilingual.

Having read it, if you would like further information, there are Useful Contact details at the end of the booklet.

Beth yw manteision bod yn ddwyieithog?

What are the advantages of being bilingual?



Beth yw manteision bod yn ddwyieithog?

Ym myd addysg

Mae ymchwil wedi dangos fod plant sydd yn siarad dwy iaith:

- yn meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol
- yn dangos mwy o allu mewn meysydd eraill yn bedair a phum mlwydd oed (Dr Ellen Bialystak, Prifysgol Efrog, Canada)
- yn llai tebyg o golli eu cof wrth heneiddio (Dr Ellen Bialystak).

“Mae ymchwil mewn nifer o wledydd gwahanol yn dangos fod disgyblion dwyieithog yn tueddu i wneud yn well mewn profion IQ a phroffion creadigol. Yn ogystal, mae disgyblion dwyieithog yn gwneud yn well mewn profion rhesymu Gwyddoniaeth a Mathemateg o’u cymharu â disgyblion uniaith.” Yr Athro Colin Baker, Arbenigwr Rhyngwladol ar Addysg Ddwyieithog.

What are the advantages of being bilingual?

Education

Research has shown that children who speak two languages are:

- more versatile and creative in their thinking
- more intellectually advanced in other fields at four and five years old (Dr Ellen Bialystak, York University, Canada)
- better at retaining their mental abilities into old age (Dr Ellen Bialystak).

“Research from a number of different countries shows that bilingual pupils tend to do better in IQ tests and creative assessments. Also, bilingual pupils do better in Scientific reasoning tests and in Mathematics achievement tasks compared with monolingual pupils.” Professor Colin Baker, International Expert on Bilingual Education.

Canlyniadau ysgolion:

- mae ystadegau'n profi fod canlyniadau ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gyson uchel
- ar gyfartaledd mae disgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud yn well yn eu harholiadau

e.e. yn 2000, cafodd 59% o ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg 5 TGAU (graddau A-C) o'i gymharu â 47% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cafodd 65% o ddisgyblion 16-18 oed ysgol cyfrwng Cymraeg 2 neu fwy Lefel A (graddau A-C) o'i gymharu â 58% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.*

School results:

- statistics show that the external examination results at Welsh-medium secondary schools are consistently high
- on average pupils who receive Welsh-medium education achieve higher grades in examinations

e.g. in 2000, 59% of pupils in Welsh-medium schools gained 5 or more GCSEs (grades A-C) compared with 47% in English-medium schools. 65% of pupils aged 16-18 in Welsh-medium schools gained 2 or more A levels (grades A-C), compared with 58% in English-medium schools.*

Ym myd gwaith

Mae gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn fantais fawr i bobl ifanc Cymru wrth chwilio am swyddi. Ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae mwy o ddefnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Felly mae cyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol yn chwilio am staff sy'n gallu gweithio'n effeithiol yn y ddwy iaith.

Careers

Being able to speak Welsh and English gives young people in Wales an enormous advantage when they enter the job market. Since the Welsh Language Act 1993 was passed, more use is being made of the language in every aspect of life. As a result, public bodies, private companies and voluntary organisations are looking for staff that are able to perform effectively in both languages.

Yn gymdeithasol

Os yw'ch plentyn yn gallu siarad dwy iaith:

- bydd yn gallu cymysgu a chyfathrebu gyda llawer mwy o bobl, a chael bywyd cymdeithasol mwy amrywiol
- bydd yn help i bontio rhwng y cenedlaethau os oes taid neu nain, tad-cu neu fam-gu yn y teulu sy'n siarad Cymraeg; bydd hyn yn cyfoethogi bywyd o'r ddwy ochr
- bydd yn agor drysau i ddiwylliant gwahanol; gyda'r cyfle i siarad Cymraeg, bydd eich plentyn yn medru mwynhau dau ddiwylliant, sy'n help i ehangu gorpwlion.

REMEMBER:

Between 60% and 75% of the world's population is bilingual. People who only speak one language are in the minority.

COFIWCH:

Mae rhwng 60% a 75% o drigolion y byd yn ddwyieithog. Pobl uniaith sydd yn y lleiafrif.

Social

A child who is able to speak two languages can:

- mix and communicate with a wider variety of people, and therefore have a more diverse social life
- become a bridge between generations, if there are grandparents or other family members who can speak Welsh; this will be an enriching experience for all participants
- open the door to a different culture; with the opportunity to speak Welsh, your child will benefit from the broader horizons provided by the enjoyment of two cultures.



Dysgu Cymraeg yn yr ysgol

Learning Welsh at school

Dysgu Cymraeg yn yr ysgol

Drwy ddewis addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn y blynyddoedd cynnar, byddwch yn cynnig mantais fawr i'ch plentyn. Mae'n llawer haws i faban neu blentyn ifanc ddysgu iaith nag yw hi i blant hŷn neu oedolion.

Mae'n bwysig cofio hefyd fod plant yn medru derbyn addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn yr ysgol gynradd a'r uwchradd. Wrth iddynt symud ymlaen i addysg bellach ac uwch gallant astudio pynciau neu fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth i blant dyfu, mae rhieni yn edrych ymlaen i'w gweld yn gwneud cynnydd, ac yn dysgu sgiliau newydd. Un o'r sgiliau yma fydd y gallu i siarad Cymraeg. Gallwch fod yn dawel eich meddwl eich bod yn rhoi'r cyfle gorau i'ch plentyn.



Learning Welsh at school

By choosing a Welsh-medium or bilingual education in the early years, you will be offering your child a huge advantage. It is far easier for an infant or young child to learn a language than it is for older children or adults.

It is important to remember also that children are able to receive Welsh-medium or bilingual education through primary and secondary school. As they move on to further and higher education, it is possible to study subjects or modules in Welsh.

As children grow, parents look forward to seeing them progress, and learn new skills. One of these skills will be the ability to speak Welsh. You can rest assured that you are giving your child the best opportunity.



Cwestiynau sy'n cael eu codi'n aml

Frequently asked questions

Cwestiynau sy'n cael eu codi'n aml

Frequently asked Questions

Dydw i ddim yn gallu siarad Cymraeg fy hunan - fydd hynny'n anfantais os byddai'n anfon fy mhlentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg?

Does dim rhaid i chi fod yn medru siarad Cymraeg i anfon eich plentyn i gylch meithrin neu ysgol cyfrwng Cymraeg. Mewn llawer ardal yng Nghymru, mae mwyafrif helaeth y plant mewn cylchoedd meithrin neu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

O'r 18.8% o blant 3-4 oed oedd yn medru siarad Cymraeg, roedd 8.8% wedi dysgu Cymraeg y tu allan i'r cartref (Cyfrifiad 2001).

I am not a Welsh speaker myself – is that a disadvantage if I decide to send my child to a Welsh-medium school?

It is not necessary for you to be able to speak Welsh in order to send your child to a Welsh-medium playgroup or school. In many areas of Wales the vast majority of children in Welsh-medium or bilingual nursery groups and schools come from non-Welsh-speaking homes.

18.8% of children aged 3-4 are able to speak Welsh. Of these, 8.8% had learnt Welsh outside the home (Census 2001).

Bydd fy mhlentyn yn barod i gychwyn addysg feithrin yn fuan. Sut mae rhoi'r cychwyn gorau posib?

Gallwch fynd gyda'ch plentyn i Gylch Ti a Fi o 6 mis oed ymlaen. Bydd hynny'n rhoi cyfle i'ch plentyn glywed y Gymraeg mewn awyrgylch hamddenol a hapus. Mae **Mudiad Ysgolion Meithrin** yn gyfrifol am redeg dros 400 o Gylchoedd Ti a Fi ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r cylchoedd yma'n rhoi cyfle i rieni a gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant mewn awyrgylch anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg, tra'n cymdeithasu gyda rhieni eraill. Does dim rhaid eich bod chi na'ch plentyn yn medru siarad Cymraeg i ymuno â'r Cylch Ti a Fi lleol. Bydd croeso i chi ymuno yn y gweithgareddau, ac efallai ddysgu ychydig o Gymraeg eich hunan. Mae rhai Cylchoedd Ti a Fi yn rhedeg cyrsiau "Cymraeg i'r Teulu" sy'n cyflwyno storïau, caneuon a hwiangerddi Cymraeg a rhai brawddegau syml i'w defnyddio yn y cartref.

My child will soon be ready to begin nursery education. How can I ensure the best possible start?

You can go along with your child to a Ti a Fi Group (literally You and Me) from 6 months old. This will offer your child the ideal opportunity to get used to hearing Welsh in a happy, relaxed environment. **Mudiad Ysgolion Meithrin** (The Welsh Nursery Schools Association) is responsible for running over 400 Ti a Fi Groups in every part of Wales.

These groups offer opportunities for parents and carers to enjoy playing with their children in an informal Welsh atmosphere, while socialising with other parents. Neither you nor your child needs to be able to speak Welsh to join the local group. You will be given every encouragement to join in any activities, and perhaps learn a little Welsh yourself. Some Ti a Fi groups run "Welsh for the Family" courses which introduce Welsh stories, songs, nursery rhymes and simple phrases to use at home.



Pryd mae hi'n bosib i blant ddechrau mynd i'r Cylch Meithrin?

Gall eich plentyn ddechrau mynd yn ddwyflwydd a hanner, os yw'n siarad Cymraeg ai peidio. Yn yr oed yma, mae iaith lafar plant yn datblygu'n gyflym iawn. Drwy roi cyfle iddynt wneud ffrindiau, a mwynhau chwarae yn eu cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwch yn gosod seiliau cryf i adeiladu arnynt. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhedeg dros 550 o Gylchoedd Meithrin ym mhob rhan o Gymru.

When can I start taking my child to Cylch Meithrin (Nursery Playgroup)?

Your child will be able to join the Cylch Meithrin at the age of two and a half, whether able to speak Welsh or not. Children make significant linguistic progress at this age. Offering them opportunities to play and to enjoy the company of friends through the medium of Welsh sets a firm foundation for further development. Mudiad Ysgolion Meithrin runs over 550 Meithrin groups in all areas of Wales.

Oes yna ddewis arall ar gyfer fy mhlentyn yn yr oed yma?

- I blentyn tair blwydd oed, mae gan rai ysgolion uned feithrin, ac mae rhai o'r rhain yn cynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg
- Mewn sawl rhan o Gymru, mae gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan eich Cyngor Sir am:

*Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
Gwasanaeth Gwybodaeth Plant*

Gweler Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn am fanylion.

Are there other options for my child at this age?

- For your three year old, some primary schools have a nursery unit, and a number of these units offer Welsh-medium education
- In many areas of Wales there are registered childminders and day nurseries that offer a bilingual service.

Further information can be obtained from your County Council about:

*the Early Years Development and Childcare Partnership
the Children's Information Services*

For details, see the Useful Contacts at the end of the booklet.



Beth fydd yn digwydd pan fydd hi'n amser i'm plentyn fynd i ysgol gynradd?

Mae symud o grŵp neu ddosbarth meithrin Cymraeg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn teimlo'n beth naturiol i'ch plentyn. Mae cael dilyniant o'r math yma'n bwysig i blant bach, a bydd eu sgiliau iaith yn dal i wella o hyd.

Mae yna ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dan ofal yr Awdurdod Addysg Lleol ym mhob rhan o Gymru. Mae'r ffaith fod rhieni'n galw am fwy eto o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn profi mor llwyddiannus yw'r addysg sydd ar gael ynddyn nhw.

Os ydych chi'n byw mewn ardal lle mae llawer o siaradwyr Cymraeg, bydd nifer o'r ysgolion lleol yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith, mae yna ysgolion penodedig Cymraeg.

Am lawlyfr i rieni yn nodi y mathau o ysgolion sydd ar gael o fewn eich Sir cysylltwch â'ch Awdurdod Addysg Lleol. (Gweler Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn.)

What will happen as my child moves to primary school?

Moving from a Welsh-medium nursery or class into a Welsh-medium or bilingual school is a natural progression. A sense of continuity is very important to young children, and their language skills will continue to improve.

In every part of Wales there are Welsh-medium and bilingual primary schools run by the Local Education Authority. The fact that parents continue to campaign for more Welsh-medium and bilingual provision proves how successful the education is in these schools.

If you live in an area where a great deal of Welsh is spoken, then many of the local schools will offer Welsh-medium education. In less Welsh-speaking areas, there are designated Welsh-medium schools.

For a booklet for parents outlining the types of schools available within your County contact your Local Education Authority. (See the Useful Contacts at the end of the booklet.)

Beth yw'r patrwm o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd?

Mae hyn yn amrywio rywfaint o sir i sir. Fel arfer, mae'r plant yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg tan yn 7 oed. Mewn rhai ysgolion bydd Saesneg hefyd yn cael ei defnyddio fel cyfrwng rhwng 7 ac 11 oed. Mae'r ysgolion hyn yn anelu at gynhyrchu plant gyda sgiliau addas ar gyfer eu hoedran yn Gymraeg ac yn Saesneg erbyn iddyn nhw adael yr ysgol gynradd.

What pattern is followed for Welsh-medium teaching in primary schools?

The details vary a little from one county to another. Generally, children will receive their education through the medium of Welsh until the age of 7. In some schools English will also be used as a medium between the ages of 7 and 11. These schools aim to ensure that their pupils have the relevant skills for their age in both Welsh and English by the time they have completed their primary education.



Beth petawn i wedi symud i Gymru, a'm plentyn wedi cyrraedd oed cynradd yn barod, ond heb fod yn medru'r Gymraeg?

Mae yna gymorth ar gael fyddai'n ei helpu i ymdoddi'n ddiraffferth i'r system addysg ddwyieithog. Mae gan amryw o siroedd Cymru ganolfannau iaith sy'n cynnig cyrsiau iaith dwys am gyfnod wrth i'r plentyn gychwyn yn yr ysgol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn gan yr Awdurdod Addysg yn yr ardal rydych chi'n symud iddi.

What if I move to Wales, and my child is of primary school age, but unable to speak Welsh?

Help is available to enable your child to integrate effortlessly into the bilingual educational system. A number of counties in Wales have language centres, which offer intensive language provision for set periods when a child starts at school. For more information contact the Education Authority in the area to which you are moving.



A beth am addysg uwchradd?

Os yw'ch plentyn wedi derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n beth naturiol i barhau i wneud hynny hefyd ar lefel uwchradd.

Mae yna nifer o fanteision o wneud hyn:

- bydd y dilyniant yma yn gwneud y newid o'r cynradd i'r uwchradd yn llawer haws i'ch plentyn
- mae ymchwil yn dangos fod y sgiliau iaith gwerthfawr ddysgodd eich plentyn yn yr ysgol gynradd yn cael eu colli'n gyflym os yw cyfrwng yr addysg yn newid, yn enwedig os nad Cymraeg yw iaith y cartref a'r gymuned
- mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu orau wrth eu defnyddio bob dydd. Drwy barhau i dderbyn addysg Gymraeg neu ddwyieithog, bydd eich plentyn yn gwella'i sgiliau iaith presennol, gan ddod yn fwy rhugl.

What about secondary education?

If your child has received a Welsh-medium primary education, there is no reason not to continue to do so at secondary school.

There are a number of advantages to doing so:

- this continuity will make the change from primary to secondary school much easier for your child
- research shows that valuable bilingual skills are quickly lost if the medium of education changes, especially if Welsh is not the language of the home and the community
- children's bilingual skills develop best when they are used every day. By continuing to receive Welsh-medium or bilingual education, your child will build on existing linguistic skills, and become increasingly fluent.

Beth yw'r patrwm o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd?

Mae yna wahanol fathau o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mewn ardaloedd mwy Cymraeg, cewch ysgolion uwchradd traddodiadol Gymraeg, lle gall disgyblion ddewis astudio pynciau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mewn ardaloedd eraill, ceir ysgolion uwchradd penodedig Cymraeg, lle mae mwyafrif y pynciau hyd at lefel TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch, yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai ysgolion yn rhoi dewis iaith ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth.

What pattern is followed for Welsh-medium teaching in secondary schools?

There are different types of Welsh-medium and bilingual secondary schools. In traditional Welsh-medium secondary schools, which are found in predominantly Welsh-speaking areas, pupils can choose to follow subjects either through the medium of Welsh or English. In other areas of Wales, there are designated Welsh-medium secondary schools, in which the majority of subjects are taught through the medium of Welsh to GCSE, AS and A level. In some schools there may be a choice of language for Mathematics and Science.



Ydy hi'n bosib derbyn addysg bellach ac uwch yn y Gymraeg?

Ydy. Erbyn hyn, mae nifer o golegau a phrifysgolion yn cynnig cyrsiau neu fodiwlau, rhai galwedigaethol neu academiaidd, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Is it possible to receive Welsh-medium further and higher education?

Yes. Many colleges and universities offer courses and modules, both academic and vocational, through the medium of Welsh or bilingually.

Sut alla' i helpu fy mhleintyn i wneud yn fawr o'r cyfle?

Mae'n hollbwysig eich bod yn cefnogi addysg eich pleintyn yn y cartref.

Os ydych chi'n siarad Cymraeg, gallwch:

- ddarllen gyda'ch pleintyn, a gwranddo ar eich pleintyn yn darllen
- siarad am bob math o bynciau - mae hyn yn help i wella geirfa
- dangos diddordeb yn y gwaith cartref, a chynnig help llaw os oes angen, ond heb ei wneud dros eich pleintyn, wrth gwrs!

Os nad ydych chi'n gallu siarad Cymraeg, peidiwch â phoeni. Gallwch helpu drwy:

- ddarllen llyfrau Saesneg gyda'ch pleintyn
- darllen llyfrau dwyieithog - bydd y testun Saesneg o help i chi ddeall y stori
- os ydych chi'n gwybod sut mae ynganu llythrennau'r Gymraeg, rhowch gynnig ar ddarllen llyfrau Cymraeg gyda'ch pleintyn. Efallai y bydd yn hoffi'r syniad o'ch helpu chi i ddysgu darllen! Mae llyfrau ynghyd â thâp sain o'r stori yn cael ei darllen hefyd ar gael
- cofiwch fod siarad am y lluniau yn rhan bwysig o fwynhau unrhyw lyfr ar gyfer plant; gallwch wneud hyn yn yr iaith rydych chi'n fwyaf cyfforddus ynddi
- yn aml iawn, bydd yr ysgol yn cynnwys cyfarwyddiadau Saesneg yn ogystal â rhai Cymraeg ar unrhyw waith cartref. Dylai'ch pleintyn fedru egluro'r dasg i chi hefyd - mae gwneud hynny'n ymarfer da.

Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn sefydlu llinell gymorth gwaith cartref yn 2005. Am fanylion pellach ffoniwch y Llinell Gyswilt. (Gweler Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn.)

REMEMBER:

You can get help in choosing suitable books from your local library, your local Cylch Ti a Fi or Cylch Meithrin, or your child's school.

COFIWCH:

Gallwch gael help i ddewis llyfrau addas gan eich llyfrgell leol, eich Cylch Ti a Fi neu'r Cylch Meithrin lleol, neu ysgol eich pleintyn.

The Welsh Language Board will be setting up a homework helpline in 2005. For further details contact the LinkLine to Welsh. (See Useful Contacts at the end of the booklet.)

How can I help my child to make the most of these opportunities?

Supporting your child's education in the home is vitally important.

If you are able to speak Welsh you can:

- read with your child, and listen to your child read
- talk about a variety of subjects - this will help improve vocabulary
- show an interest in the homework, and offer any help necessary, but without doing it for your child, of course!

If you are unable to speak Welsh, don't worry.

You will still be able to help by:

- reading English language books with your child
- reading bilingual books - the English text will give you an idea of the story
- if you know how to pronounce the letter sounds in Welsh, try to read simple Welsh books. Your child might like the idea of helping you learn to read! Books accompanied by an audio tape of the story being read are also available
- remember that talking about the pictures is an important part of enjoying children's books; this can be done in the language you find most comfortable
- often, the school will include instructions in English as well as in Welsh on any homework task. Your child should also be able to explain the task to you - doing so is good practice.



Ydy hi'n rhy hwyr i mi ddysgu Cymraeg fy hunan?

Dydy hi byth yn rhy hwyr i chi neu'ch partner ddysgu Cymraeg. Mae dysgu ochr yn ochr â'ch plentyn yn gallu bod yn sbardun i chi, ac yn dipyn o hwyl! Mae yna gyrsiau Cymraeg i oedolion ar gael ledled Cymru, ar gyfer dysgwyr ar bob lefel. Mewn rhai ardaloedd, mae dosbarthiadau arbennig ar gyfer rhieni.

Ffoniwch y Llinell Wybodaeth Cymraeg i Oedolion am fanylion dosbarthiadau yn eich ardal chi. (Gweler Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn.)

Is it too late for me to learn Welsh myself?

It's never too late for you or your partner to learn Welsh. Learning alongside your child can be an incentive, and lots of fun! There are Welsh courses for adults available throughout Wales, suitable for learners at all levels. In some areas there are classes aimed specifically at parents.

Phone the Welsh for Adults Information Line for details of classes in your local area. (See Useful Contacts at the end of the booklet.)



Cysylltiadau defnyddiol

Useful contacts

Awdurdodau Addysg Lleol

Gall eich Awdurdod Addysg Lleol roi manylion i chi am eich ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog leol.

Local Education Authorities

Your Local Education Authority will be able to provide information on your local Welsh-medium or bilingual school.

1. **Abertawe / Swansea** 01792 636000
www.abertawe.gov.uk www.swansea.gov.uk
2. **Blaenau Gwent** 01495 350555
www.blaenau-gwent.gov.uk
3. **Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan** 01446 700111
www.bromorgannwg.gov.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk
4. **Caerdydd / Cardiff** 029 20872000
www.caerdydd.gov.uk www.cardiff.gov.uk
5. **Caerfyrddin / Carmarthen** 01267 224532
www.sirgar.gov.uk www.carmarthenshire.gov.uk
6. **Caerffili / Caerphilly** 01443 815588
www.caerphilly.gov.uk
7. **Casnewydd / Newport** 01633 656656
www.newport.gov.uk
8. **Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot**
01639 763333 www.neath-porttalbot.gov.uk
9. **Ceredigion** 01545 570881
www.ceredigion.gov.uk
10. **Conwy** 01492 575031
www.conwy.gov.uk
11. **Sir Ddinbych / Denbighshire** 01824 706777
www.sirddinbych.gov.uk www.denbighshire.gov.uk
12. **Sir y Fflint / Flintshire** 01352 704023
www.siryfflint.gov.uk www.flintshire.gov.uk
13. **Gwynedd** 01286 679207
www.gwynedd.gov.uk
14. **Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil** 01685 724600
www.merthyr.gov.uk
15. **Môn / Anglesey** 01248 752900
www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk
16. **Mynwy / Monmouthshire** 01633 644644
www.monmouthshire.gov.uk
17. **Penfro / Pembrokeshire** 01437 764551
www.sir-benfro.gov.uk www.pembrokeshire.gov.uk
18. **Pen-y-Bont ar Ogwr / Bridgend** 01656 642643
www.bridgend.gov.uk
19. **Powys** 01597 826422
www.powys.gov.uk
20. **Rhondda Cynon Taf** 01443 744000
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk
www.rhondda-cynon-taff.gov.uk
21. **Torfaen** 01633 648105
www.torfaen.gov.uk
22. **Wrecsam / Wrexham** 01978 297505
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk

Am wybodaeth am feithrinfeydd dydd a gofalwyr plant cofrestredig yn eich ardal cysylltwch â Phartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu Wasanaeth Gwybodaeth Plant eich Cyngor Sir (Gweler uchod).

For information about day nurseries and registered childcare providers in your local area contact the Early Years Development and Childcare Partnership or Children's Information Services at your County Council (See above).

Deunyddiau / Resources

Cyngor Llyfrau Cymru / Welsh Books Council
01970 624151
www.gwales.com
cllc.marchnata@cllc.org.uk

Cyfryngau / Media

S4C
Gwifren Gwylwyr: 0870 600 4141
De Cymru / South Wales: 029 20747 444
Gogledd Cymru / North Wales: 01286 674622
www.s4c.co.uk

BBC Cymru
08700 100222
www.bbc.co.uk/cymru

BBC Radio Cymru
08703 500500
www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru

Gwybodaeth gyffredinol am ddwyieithrwydd / General information about bilingualism

Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Welsh Language Board
029 2087 8000
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Multilingual Matters
01275 876519
www.multilingual-matters.com



Mudiadau / Organisations

Twf

Prosiect i annog rhieni a darpar rieni i fagu eu plant yn ddwyieithog. Ceir gweithwyr maes ym mhob rhan o Gymru er mwyn lledaenu'r neges am fanteision dwyieithrwydd.

Twf is a project to encourage parents and prospective parents to raise their children bilingually. It has field workers in every part of Wales, who spread the message about the advantages of bilingualism.

01239 711668 / 01492 530770

www.twfcymru.com www.twfwales.com

Mudiad Ysgolion Meithrin

Mudiad Ysgolion Meithrin yw'r prif ddarparwyr cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar y tu allan i'r sector statudol.

Mudiad Ysgolion Meithrin (The Welsh Nursery School Association) is the main Welsh-medium early years provider outside the statutory sector.

08000 112233

www.mym.co.uk

www.bilingualfrombirth.com

Urdd Gobaith Cymru

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuentid mwyaf Cymru. Mae'r Urdd yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau amrywiol, o chwaraeon i eisteddfodau.

The Urdd is the largest youth movement in Wales. The Urdd is responsible for organising various activities, from sport to eisteddfodau.

Swyddfa'r Urdd - 01970 613100

www.urdd.org



Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)

Cymdeithas sydd yn cynrychioli rhieni drwy Gymru, gyda'r nod o hybu addysg Gymraeg.

A society representing parents from all over Wales, with the aim of promoting Welsh-medium education.

www.rhag.net

Mentrau Iaith Cymru

Mudiadau lleol yw Mentrau Iaith, sy'n rhoi cymorth i gymunedau i gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mentrau Iaith are local language initiatives that provide support for communities to develop and extend their use of the Welsh language.

www.mentrau-iaith.com



Gyrfa / Careers

Menter a Busnes

Ffôn: 01970 636565

Ffacs: 01970 611366

www.menterabusnes.co.uk

Gyrfa Cymru / Careers Wales

Ffôn: 0800 100900

www.careerswales.com

I ddysgu Cymraeg eich hunan /
To learn Welsh yourself

Cymraeg i Oedolion / Welsh for Adults

Llinell Wybodaeth Cymraeg i Oedolion:

Welsh for Adults Information Line:

0871 230 0017

iaith@galw.org

Os oes gennych gwestiynau
cyffredinol am y Gymraeg, ffoniwch y
Llinell Gyswilt ar 0845 6076070

If you have any general queries about the
Welsh Language, phone the LinkLine
to Welsh on 0845 6076070